

I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch

Cyfeirnod: W04/65HE
Dyddiad: 11 Hydref 2004
Ymateber erbyn: Ni ddisgwylir ymateb
Gwybodaeth bellach: Alison Allan

CRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG 2004/05

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y trefniadau ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2004/05.

Eglurwyd y trefniadau newydd ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg o 2003/04 i 2005/06 yng Nghylchlythyr W03/69HE. Roedd y rhain yn cynnwys dyraniadau creiddiol i Brifysgol Cymru, Aberystwyth; Prifysgol Cymru, Bangor; Coleg y Drindod Caerfyrddin; ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC). Rhoddwyd rhan o'r gronfa o'r neilltu i alluogi sefydliadau, ar wahân i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod, i wneud ceisiadau am gyllid datblygu drwy'r Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg (UDACC). Mae cyfran o'r Gronfa ar gael hefyd i'w dyrannu ar sail y cynnydd mewn cofrestriadau CALI yn erbyn man cychwyn 2001/02: trosglwyddir unrhyw arian sydd heb gael ei ddyrannu i gyllideb raglen yr UDACC ar gyfer prosiectau a gweithgareddau a fydd yn fuddiol i'r sector cyfan.

Mae'r Gronfa ar gyfer 2004/05 wedi cael ei chynyddu o lefel 2003/04 yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn dyraniadau i gyllido addysgu ac mae cyfanswm o £307,380 ar gael. Mae'r gwahanol elfennau o fewn y Gronfa wedi cael eu cynyddu pro-rata. Rhoddir manylion y dyraniadau ar gyfer 2004/05 yn Atodiad A.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod rhai amheuan o hyd ynghylch cywirdeb a chyfanrwydd y data ar gofrestrïadau cyfrwng Cymraeg a ddychwelir i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Hoffwn bwysleisio eto mor bwysig yw dychwelyd data cywir, er mwyn sicrhau bod y sefydliadau'n cael y budd llawn o ddyraniadau o dan y cynllun premiwm cyfrwng Cymraeg a'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ac fel y gellir dadansoddi tueddiadau a mesur cynnydd yn gywir yn erbyn y targed ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn *Ymgeisio'n Uwch*.

Bydd y Cyngor yn cysylltu â PC Aberystwyth, PC Bangor, Coleg y Drindod ac APCC yn unigol i drafod trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd yn 2003/04 a rholio eu cynlluniau ymlaen, fel sylfaen ar gyfer rhyddhau dyraniadau 2004/05. Bydd hyn yn cynnwys

ymweliadau gan Dr Alison Allan a Dr Ioan Matthews (y Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg) cyn diwedd y flwyddyn i drafod cynlluniau.

Bydd Dr Matthews yn ysgrifennu at y sefydliadau canlynol i egluro'r trefniadau ar gyfer gwneud ceisiadau am gyllid o'r Gronfa drwy'r UDACC:

Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
Prifysgol Cymru Abertawe
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru
Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Yn gywir

PHILIP GUMMETT